Image not found or type unknown

# Hawliau plant sy’n byw mewn cartrefi plant

Cyhoeddwyd gyntaf: 25 Mawrth 2019

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/plant-syn-derbyn-gofal/hawliau-plant-syn-byw-mewn-cartrefi-plant am y fersiwn diweddaraf.

Dysgwch fwy am sut y gallwch gefnogi plant sy'n byw mewn cartrefi plant i fynnu eu hawliau

## Hawliau cyffredinol plant

Mae gan bob plentyn sy’n byw yng Nghymru hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (UNCRC) (Saesneg yn unig), sy’n rhestru’r disgwyliadau sydd ar lywodraethau i fodloni anghenion sylfaenol plant, diogelu plant a’u helpu i gyrraedd eu llawn botensial.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnwys yr UNCRC fel rhan o’i chyfraith ddomestig: Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Wrth weithio gyda phlant o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) mae’n ofynnol i chi dalu “sylw priodol” i’r UNCRC. Mae pedair erthygl yn yr UNCRC, ac fe gyfeirir atynt fel “Egwyddorion Cyffredinol”. Mae’r rhain yn help i ddehongli pob erthygl arall ac maent yn hanfodol wrth wireddu’r holl hawliau eraill sydd yn yr UNCRC:

1. peidio â gwahaniaethu (erthygl 2)
2. er lles pennaf y plentyn (erthygl 3)
3. hawl i oroesi bywyd a datblygu (erthygl 6)
4. hawl i gael eu clywed (erthygl 12).

Mae’n bwysig eich bod yn ymgynefino â chynnwys yr UNCRC.

Mae poster am yr UNCRC ar wefan Comisiynydd Plant Cymru

Wrth weithio gyda phlant ag anableddau, dylech hefyd dalu “sylw priodol” i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD).

(Saesneg yn unig)

## Hawliau plant yn ystod eu hamser mewn gofal plant preswyl

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw blant a phobl ifanc o dan eich gofal chi yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gwybod sut a ble i gael y gefnogaeth gywir er mwyn sicrhau bod yr hawliau hynny ganddynt. Dylai fod gan eich cartref bolisi rhagweithiol ar sut i ddefnyddio hawliau plentyn yn eich gwaith bob dydd. Mae hyn yn cynnwys hawliau plentyn i:

- gael ei drin gyda pharch, gofal a charedigrwydd
- cael mynegi ei farn ynglŷn â phenderfyniadau sy'n cael ei wneud amdano
- bod yn rhan o unrhyw brosesau i gynllunio a pharatoi ei ofal a'i fywyd yn y dyfodol
- derbyn gwybodaeth mewn ffordd y mae'n ei deall
- cael lleisio barn ar sut mae'r cartref yn cael ei redeg, er enghraifft bod yn rhan o brosesau penderfynu ar fwydlen, trafod rheolau a chael cyfarfodydd plant
- bod â gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth lleol a chenedlaethol a gwybod sut i gysylltu ag eiriolwr a fyddai'n cynnig cefnogaeth iddynt leisio eu barn
- cael cefnogaeth er mwyn cynnal perthynas gyda ffrindiau a theulu (yn ôl yr hyn a gytunwyd yn y cynllun gofal)
- derbyn addysg neu hyfforddiant a chael cefnogaeth i fynychu'r ysgol neu hyfforddiant
- cael cyfle i gymdeithasu a dilyn diddordebau eraill fel gwersi cerddoriaeth, gweithgareddau chwaraeon, grwpiau celf neu ddrama

- cael apwyntiadau rheolaidd i archwilio llygaid a dannedd a bod â mynediad at feddyg teulu, nyrs i blant sy’n derbyn gofal neu gefnogaeth iechyd arbenigol
- cael cefnogaeth i dderbyn sgiliau bywyd addas i oedran yn cynnwys hunanofal, coginio, golchi dillad ei hun, siopa, rheoli arian
- bod â chynllun ar gyfer gadael gofal gyda’r gefnogaeth gywir.

Mae nifer o’r hawliau hyn yn cael eu rhestru yn Rhan 6 y Côd Ymarfer (Plant sy’n Derbyn Gofal a Phlant sy’n cael eu Lletya) ar gyfer y Ddeddf.

Rydym ni wedi cynhyrchu deunydd hyfforddi ar brif negeseuon y Ddeddf i blant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya.

Dylai fod gan eich sefydliad bolisi ynghylch hawliau plant i arian poced, dillad ac ati, yn ogystal â pholisi ar sut y dylai plant sy’n difrodi pethau ar bwrpas yn y cartref efallai orfod talu am eu trwsio â’u harian poced.

Caiff yr hawliau hyn eu cynnwys yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, Rhan 28.

## Hawl plant i chwarae mewn gofal preswyl i blant

Mae gan bob plentyn yr hawl i chwarae, boed gartref, wrth fyw gofal preswyl neu yn yr ysgol, yn ôl Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant [Saesneg yn unig]:

“Mae chwarae…yn rhan sylfaenol ac annatod o bleser plentyndod, yn ogystal â chyfran angenrheidiol o ddatblygiad corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol ac ysbrydol.”

Mae dyletswydd arnoch chi i sicrhau bod gan y plant rydych yn eu cefnogi y lle, amser a chwmni o eraill i chwarae.

Yn ogystal â hawl chwarae, mae gan bob plentyn yr angen i chwarae ac bydd y rhan fwyaf yn chwarae unrhyw le, unrhyw bryd oni bai yn flinedig iawn, sâl, eisiau bwyd, poeth, oer, gofidus neu ofnus, yn enwedig os oes plant eraill o gwmpas. Mae eisiau cymorth eraill i wneud y gorau o'u chwarae: gorau chwarae, cyd-chwarae.

Mae'r budd mwyaf i blant pryd mai nhw sy'n rheoli eu chwarae. Pryd mae plant yn dewis bet hi chwarae, pwy i chwarae gyda nhw, a sut i drefnu'r chwarae, maen nhw'n cael mwy o hwyl. Mae plant hefyd yn datblygu a dysgu mewn sawl ffordd wrth chwarae:

- mae dringo'n helpu plant i fagu cryfder corff uwch, cydsymudiad, cydbwysedd, hyder a hunanwerth
- mae cellwair, sgwrsio a dyfeisio gemau gyda phlant eraill yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu
- mae rhedeg a chwarae cwrso ar ôl ei gilydd yn eu helpu i fod yn heini
- mae cerdded neu redeg ar ben waliau yn helpu plant i ddatblygu cydsymudiad a chydbwysed
- mae neidio oddi ar risiau, reidio beic, neu neidio drwy raff yn helpu plant i ddatblygu cydsymudiad a hyder yn yr hyn gall eu cyrff ei wneud
- mae chwarae dychymyg yn datblygu creadigrwydd plant ac yn agor eu meddyliau. Mae'n gallu helpu gwneud synnwyr o bethau anodd yn eu bywyd hefyd
- mae chwarae gemau'n rhoi cyfle i blant llosgi egni a chael hwyl.

Bydd y rhan fwyaf o blant yn chwarae heb help oedolion, hyd yn oed yn y stafell fwyaf llwm. Ond bydd amgylchedd chwarae cyfoethog o'r budd mwyaf iddynt;

man sy’n llawn dewisiadau a chyfleoedd i ddyfeisio ac ymestyn eu chwarae eu hunain.

Mae gan Chwarae Cymru adnoddau i’ch helpu i gefnogi plant i chwarae ac rydym wedi rhestru’r rhain ar waelod y dudalen.

## Ar ba oedran y dylai plant wneud pethau penodol?

Dyma restr gryno o’r hyn y mae gan blentyn hawl i’w wneud ar ôl cyrraedd oedran penodol. Fodd bynnag, mae’n rhaid i chi ddilyn polisïau eich sefydliad chi: efallai bod gan blentyn 16 oed o dan eich gofal hawl gyfreithlon i yfed alcohol gyda phryd bwyd ond gallai hyn fod yn erbyn polisïau eich cartref chi.

### Yn 12 oed

- gallwch weld, rhentu a phrynu ffilm sy’n addas i rai dros 12.

### Yn 13 oed

- gallwch ddechrau gweithio’n rhan amser (mae cyfyngiadau ar y nifer o oriau a pha oriau y cewch eu gwneud).

### Yn 14 oed

- gallwch archebu diodydd meddal mewn bar.

### Yn 15 oed

- gallwch weld, rhentu a phrynu ffilm sy’n addas i rai dros 15
- gallwch wneud cais i ymuno â’r Fyddin (yn 15 oed a saith mis), y Llynges Frenhinol a’r Llu Awyr Brenhinol (15 oed a naw mis) gyda chaniatâd eich rhieni; gallwch gael eich cadw mewn canolfan gadw
- gallwch gael eich anfon i sefydliad troseddwyr ifainc am hyd at ddwy flynedd.

## Yn 16 oed

- gallwch gael rhif Yswiriant Gwladol
- gallwch wneud cais am gymorth cyfreithiol
- gallwch wneud cais am eich pasbort eich hun
- gallwch ddewis gadael addysg orfodol (yng Nghymru mae gennych hawl i adael ar ddydd Gwener cyntaf mis Mehefin os ydych chi eisoes yn 16 neu’n cael eich pen-blwydd yn 16 yn ystod y gwyliau haf. Yn Lloegr, mae’n rhaid i chi aros mewn rhyw fath o addysg neu hyfforddiant tan eich bod chi’n 18)
- gallwch ddechrau gweithio’n llawn amser cyn belled â’ch bod wedi cwblhau eich addysg orfodol
- gallwch briodi neu ddod yn rhan o bartneriaeth sifil yn gyfreithlon gyda chaniatâd eich rhieni
- gallwch roi eich caniatâd i fod yn rhan o weithgaredd rhywiol gyda phobl eraill dros 16
- gallwch chwarae’r Loteri Genedlaethol
- gallwch yfed cwrw, gwin neu seidr gyda phryd o fwyd mewn bwyty, cyn belled â bod oedolyn dros 18 gyda chi.

## Yn 17 oed

- gallwch sefyll eich prawf gyrru a dechrau gyrru nifer o gerbydau, yn cynnwys car a beic modur

- gallwch roi gwaed; gallwch gael eich cyfweld gan yr heddlu heb fod oedolyn yno gyda chi
- gallwch gael eich anfon i garchar.

### Yn 18 oed

- gallwch bleidleisio mewn etholiadau lleol a chyffredinol ac mewn refferendwm
- os ydych wedi eich mabwysiadu, gallwch weld eich tystysgrif geni wreiddiol
- gallwch agor eich cyfrif banc eich hun; gallwch adael cartref heb ganiatâd rhiant neu warcheidwad
- gallwch briodi neu fod yn rhan o bartneriaeth sifil yn gyfreithlon heb ganiatâd eich rhieni
- gallwch brynu alcohol
- gallwch ysmygu neu ddefnyddio cynhyrchion mewnanadlu
- gallwch brynu tân gwyllt; gallwch yrru cerbyd nwyddau maint canolig
- gallwch ymuno â'r lluoedd arfog heb ganiatâd eich rhieni
- gallwch weld, rhentu neu brynu ffilm sy'n addas i rai dros 18
- gallwch gael eich anfon i'r carchar o lys ynadon
- gallwch gael tatŵ.

Mae rhai eithriadau i'r terfynau oedran a restrwyd uchod ac mae rhai o'r diffiniadau'n gymhleth, er enghraifft yr oriau a'r amserau y mae gennych hawl i weithio rhwng 13 ac 16 oed (Saesneg yn unig).

Mwy o wybodaeth ar beth mae gennych hawl i'w wneud yn gyfreithlon i'w gael (Saesneg yn unig).

## Sut gall Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol gynnig cefnogaeth i blant i ddeall eu hawliau a chael eu clywed

Pwrpas eiriolaeth yw siarad o blaid plant a phobl ifanc, a'u grymuso nhw i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed bob amser.

Mae gan unrhyw blant sydd o dan eich gofal chi hawl i gael cynnig gweld eiriolwr annibynnol a chael gwybod am y gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael.

Fel gweithiwr gofal preswyl plant, byddwch yn siarad o blaid y bobl ifanc rydych chi'n eu cefnogi bob dydd. Ond gall eiriolaeth annibynnol roi cymorth iddynt fynegi barn o safbwynt gwahanol i'ch safbwynt chi gan nad yw'r eiriolwyr yn darparu gofal a chefnogaeth yn ddyddiol.

Mae rôl eiriolaeth wedi ei chynnwys yn Rhan 10 Côd Ymarfer (Eiriolaeth) y Ddeddf

Mae gan Lywodraeth Cymru Fframwaith safonau a chanlyniadau cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae MEIC Cymru yn llinell gymorth a gwefan i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaeth cyfeirio, yn cynnwys cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth lleol.

Dyma rai darparwyr eiriolaeth yng Nghymru:

TGP Cymru

Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)

Er nad ydynt yn darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, mae Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig) yn sefydliad cenedlaethol annibynnol sydd wedi ei neilltuo i gynnal hawliau a lles plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru wasanaeth ymchwiliadau a chyngor i blant a phobl ifanc.

## Adnoddau defnyddiol

Ein gwaith i gefnogi plant sy’n derbyn gofal

Ymchwil ein bod ni wedi’u dewis neu ‘guradu’

Dylech dalu sylw i’r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc yn eich gwaith.

Mae mwy o wybodaeth am hawliau plant ar gael gan Gomisiynydd Plant Cymru. Rôl y Comisiynydd yw sicrhau bod hawliau pob plentyn yn cael eu diogelu, ond yn benodol plant sy’n derbyn gofal.

Datblygiadau diweddar yng nghyfraith a pholisi plant sy'n berthnasol i Gymru (Saesneg yn unig)

Pam fod chwarae’n bwysig a’r hyn y gall pob un ohonom ei wneud yn ei gylch

Plant sy’n derbyn gofal a’r amgylchedd naturiol

Mae plant hŷn yn chwarae hefyd

Cynyddu gwytnwch: pwysigrwydd chwarae

Amddifadedd chwarae: ei effaith, y canlyniadau a photensial gwaith chwarae

Creu mannau chwarae hygyrch – pecyn cymorth

Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant

Chwarae, ymdrechu, ffynnu – dod i’r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod drwy chwarae

## Eisiau eich adborth

Helpwch ni i wella'r Adnodd gweithwyr gofal preswyl i blant drwy gael dweud eich dweud amdano yn ein harolwg pedair cwestiwn byr.